Cysylltu
Trawsffurfio
Cymell

iCTM

Connect
Transform
Motivate

Innovation

# Hwb Peirianneg Ffisiolegol Ddigidol Uwch

## AMCANION

Mae’r Hwb Peirianneg Ffisiolegol Ddigidol Uwch (ADPE) wedi'i greu gan y tîm arloesi iCTM er mwyn mynd i’r afael â mabwysiadu technolegau newydd yn gyflym o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a chefnogi cydweithio o fewn GIG Cymru yn ehangach.

## ATEBION

Yn ystod 2020, daeth COVID â llawer o unigolion ynghyd gyda nod cyffredin o weithio'n hyblyg i fynd i’r afael â phroblemau gyda dulliau syml ac arloesol. Daethpwyd ag argraffu 3D i flaen y gad yn yr argyfwng COVID gyda diwydiant a’r cyhoedd yn cyfuno i fynd i’r afael â materion fel prinder PPE ac arloesi anadlol. Mae Hwb ADPE yn dod â staff, cleifion, academyddion a phartneriaid yn y diwydiant at ei gilydd ac yn darparu llwyfan i ymgysylltu mewn ffordd arloesol o weithio er mwyn darparu mecanwaith ymreolaethol a chyflym i ymateb a galluogi atebion ymarferol i faterion.

## MANTEISION

### Mantais un


Mae dod â gallu diwydiant i’n cymuned arloesi wedi galluogi’r bwrdd iechyd i brototeipio a phrofi syniadau’n gyflym, gan ddileu risg, lleihau cyfnodau arbrofol a defnyddio partneriaid yn y diwydiant.

### Mantais dau

Cynnydd mewn cydweithio.

### Mantais tri

Yn darparu adnodd yn ôl i staff CTM.




“Mae creu’r Hwb Ffisiolegol Digidol Uwch wedi rhoi’r lle i ni feddwl am syniadau arloesol newydd mewn lleoliad cydweithredol i wella gwasanaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gyffredinol.”

**Tom Powell**

tom.powell2@wales.nhs.uk